# PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Y Cynghorydd M.R. Wilson (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, S.J. Haines, N.P. Hodges a S.D. Perkes.

Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: Y Cynghorwyr B.E. Brooks (Eilydd) (Cyngor Tref y Barri), G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth), C. Hadley (Eilydd) (Cyngor Cymuned Tregolwyn), M. Phillips (Eilydd) (Cyngor Cymuned Dinas Powys), H. Osbourne (Cyngor Cymuned Llancarfan), J. Shaw (Cyngor Cymuned Llandŵ), L. Lock (Eilydd) (Cyngor Cymuned Llanfair), G. Smith (Cyngor Cymuned Llanmaes), L. Green (Eilydd) (Cyngor Cymuned Llan-maes), B. Gaskill (Eilydd) (Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-Pwll a Lecwydd), P. Summers (Cyngor Cymuned Penllyn), A. Parry (Cyngor Cymuned Saint-y-brid), G. Halliwell (Cyngor Cymuned Llanddunwyd), I. Perry (Cyngor Cymuned St. Nicholas a Tresimwn) a C. Hawkins (Cyngor Cymuned Y Wig).

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 53 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 54 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr S. Campbell, C.A. Cave, W. Gilligan, S.M. Hanks, J. Lynch-Wilson, H.M. Payne ac R.R. Thomas (Cyngor Bro Morgannwg); S. Hodges (Cyngor Tref y Barri), B. Morris (Cyngor Cymuned Tregolwyn), K. Hatton (Cyngor Cymuned Dinas Powys), J. Radcliffe (Cyngor Cymuned Ewenni), S. Jefferies (Cyngor Cymuned Llandochau), S. Bonnar (Cyngor Cymuned Llanfair), M. Narusberg (Cyngor Cymuned Llan-maes), G. Marks (Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-Pwll a Lecwydd), S.M. Toker (Cyngor Cymuned Sain Tathan), T. Partridge (Cyngor Cymuned Llanddunwyd) ac N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog).

55 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

56 ADOLYGIAD CYMUNEDOL BRO MORGANNWG (SCE) –

Dechreuodd Prif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg ei gyflwyniad o'r adroddiad drwy grynhoi'n fras yr amserlen adrodd a’r cyd-destun hirsefydlog ar gyfer Adolygiad Cymunedol Bro Morgannwg, fel y nodwyd yn y Cefndir, Adran 1, yn yr adroddiad eglurhaol a gyflwynwyd.

Cyhoeddodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("Y Comisiwn") ei Adroddiad Terfynol a ryddhawyd ar 16 Ebrill 2024, ac adroddwyd y mater i Gyngor Llawn Bro Morgannwg ar 29 Ebrill 2024. Roedd yr adroddiad yn ffeithiol ei natur. Ystyriodd y Cyngor Llawn yr adroddiad ac, yn dilyn trafodaeth, derbyniodd yr adroddiad, gan argymell y dylid dosbarthu copi o'r adroddiad i holl Glercod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth ac i alluogi Cynghorau Tref a Chymuned i gyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r adolygiad. Fel y cytunwyd gan y Cyngor Llawn, roedd y Cyngor wedi ymateb i Weinidog Llywodraeth Cymru a chyflwynwyd copi o'r adroddiad i Lywodraeth Cymru ar 7 Mai 2024. Rhoddwyd gwybod i Weinidog Cymru hefyd y dywedwyd wrth bob Cynghorydd i ymateb ar wahân os oedd yn dymuno gwneud hynny.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod cyfarfod arbennig y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol wedi'i drefnu i fynd drwy'r argymhellion terfynol (tudalennau 5 i 8) fel y cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn, a chyflwynwyd i Weinidogion Cymru, yn ogystal â rhoi cyfle i Gynghorau Tref a Chymuned leisio barn, a fyddai, yn ei dro, yn caniatáu iddynt ymateb naill ai ar sail unigol neu ar y cyd mewn grwpiau a/neu glystyrau yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, gan nodi nad oedd amser pellach yn cael ei ganiatáu o fewn y broses adrodd i wneud argymhellion penodol i Gabinet Bro Morgannwg fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad eglurhaol.

Roedd y Comisiwn bellach wedi cwblhau ei adolygiad o Brif Ardal Gymunedol Bro Morgannwg ac roedd ei argymhellion terfynol wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 16 Ebrill 2024. Mater i Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog perthnasol yn awr oedd ystyried argymhellion y Comisiwn a phenderfynu sut i fwrw ymlaen ac a ddylid gwneud Gorchymyn. Gallai argymhellion y Comisiwn gael eu symud ymlaen gan Weinidog Llywodraeth Cymru naill ai fel y'u cyflwynwyd neu wedi’u haddasu neu gallai gymryd dim camau.

I gloi, dywedodd y Prif Weithredwr fod adroddiad y Comisiwn yn ei gwneud yn glir y dylid cyfeirio unrhyw sylwadau pellach at Lywodraeth Cymru erbyn 6 wythnos o ddyddiad adroddiad y Comisiwn (dydd Mawrth 16 Ebrill 2024) sef dydd Mawrth 28 Mai 2024. Felly, anogwyd Cynghorau Tref a Chymuned i gyflwyno unrhyw sylwadau i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad hwn os nad oeddent eisoes wedi gwneud hynny.

Yn dilyn cyflwyniad y Prif Weithredwr o'r adroddiad eglurhaol, gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan y Pwyllgor y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- **Y Cynghorydd Gaskill [Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd]** - Cyngor bach oedd Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd a oedd yn cynnwys dwy gymuned wledig ar gyrion Caerdydd, ac nid oedd ei fuddiannau yr un fath â Chyngor Cymuned Llandochau a oedd yn gymuned faestrefol a oedd yn ffurfio rhan o Gaerdydd gan redeg i mewn i ardal Penarth. Cafodd y Cyngor Cymuned ei ddigalonni gan y posibilrwydd o gael ei ddiddymu a'r hyn yr oedd yn ei ystyried yn dangynrychiolaeth sylweddol dan yr awdurdod cyfunol newydd a oedd yn cael ei gynnig. Felly, gwrthwynebodd y Cyngor Cymuned argymhellion y Comisiwn mewn perthynas â'r Cyngor Cymuned ac roedd wedi cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn felly.

- **Y Cynghorydd Haines [Cyngor Bro Morgannwg]** - Roedd adroddiad y Comisiwn yn ddinistriol i ardaloedd gwledig Bro Morgannwg ac roedd yn dileu llawer o gymeriad cynhenid trefi llai a Chynghorau Cymuned yn yr ardal. Roedd safbwyntiau Cynghorau Cymuned wedi cael eu tangynrychioli, a oedd yn amlwg yn adroddiad y Comisiwn ac felly, dylai'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol roi sylw i'r Gweinidog y dylid ystyried sylwadau Cynghorau Tref a Chymuned.

- **Y Cynghorydd Green [Cyngor Cymuned Llan-faes]** - Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol ym mis Hydref 2022 cafwyd trafodaeth ynghylch Ymgynghoriad i'w gynnal ar y polisi maint cynghorau yn seiliedig ar nifer yr Etholwyr fodd bynnag, ymddengys nad oedd yr ymgynghoriad wedi digwydd hyd yma. Felly, sut cafodd penderfyniadau eu gwneud ar y polisi maint cynghorau?

- **Y Cynghorydd Parry [Cyngor Cymuned Saint-y-brid]** - Cydnabu'r Cyngor Cymuned y swm mawr o waith a oedd wedi'i wneud i ddatblygu adroddiad ac argymhellion y Comisiwn hyd yma, fodd bynnag, gwrthwynebodd yr argymhelliad i Saint-y-brid ymuno â Chyngor Cymuned Ewenni a oedd yn wahanol iawn i'w hun. Cydnabu'r Cyngor Cymuned hefyd y gallai fod angen newid nifer y Cynghorwyr. Yn anffodus, nid oedd Clerc blaenorol y Cyngor Cymuned wedi cyflwyno argymhellion y Cyngor i'r Comisiwn mewn pryd i lywio adroddiad y Comisiwn, ond roedd sylwadau'r Cyngor wedi'u gwneud i Lywodraeth Cymru ers cyhoeddi adroddiad y Comisiwn.

- **Y Cynghorydd Hadley [Cyngor Cymuned Tregolwyn]** - Roedd y Cyngor Cymuned yn anhapus iawn gydag argymhellion y Comisiwn ac yn teimlo bod ganddo fwy i'w golli nag i'w ennill drwy ymuno â Llan-gan a St Mary Hill. Roedd Cyngor Cymuned Tregolwyn yn gyngor da iawn gyda chanlyniadau amlwg a Chynghorwyr ymroddedig, ond byddai argymhellion y Comisiwn yn gwanhau'r Cyngor. Felly, gofynnwyd i'r Prif Weithredwr beth, yn ei farn ef, oedd manteision cael gwared â Chynghorwyr da a chreu un peth sy'n addas i bawb ar gyfer y pedwar pentref y cynigiwyd eu huno. Roedd yn ymddangos bod diffyg ffeithiau go iawn mewn perthynas â

phenderfyniadau ynghylch maint cynghorau ac felly roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud i gyd-fynd â barn bersonol.

- **Y Cynghorydd Shaw [Cyngor Cymuned Llandŵ]** - Roedd y Cyngor Cymuned hefyd yn anhapus ac roedd ganddo bryderon ynghylch yr argymhellion arfaethedig gan y Comisiwn am y rhesymau canlynol:
  - ymddengys mai ychydig iawn o sylw a roddwyd i amcanion eraill yr adolygiad ac eithrio dilyn y cynigion ar gyfer Canllawiau niferoedd yn unig,
  - roedd y ffaith bod yr adolygiad i fod i adlewyrchu hunaniaethau lleol yn rhywbeth a oedd wedi ei golli'n llwyr,
  - roedd Llandŵ yn symud o dair ward i chwech, ac roedd un ohonynt yn cynnwys tri phentref bach nad oeddent yn rhannu buddiannau cyffredin gyda'r Cyngor Cymuned o ganlyniad i gyfleusterau hamdden, gwastraff cartrefi, busnes a phriffordd nodedig yn ei ardal,
  - cynghorau cymuned oedd yr haen agosaf i'w cymunedau lleol ac roedd yr argymhellion i bob pwrpas yn gwneud yr etholwyr yn fwy anghysbell o ddemocratiaeth.  Felly, yn lle ysgogi a chreu cymunedau bywiog, roedd yn ei gwneud yn llawer anoddach i bobl ddewis cymryd rhan,
  - nid oedd Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi llawer o sylw i'r llais lleol felly, oni bai ei fod yn datrys y mater penodol hwnnw, byddai democratiaeth leol yn parhau i fethu,
  - roedd y Cynghorydd Shaw yn deall bod demograffeg cynghorwyr cymuned lleol yn tueddu i fod yn bobl wedi ymddeol, ond nid oedd Cyngor Bro Morgannwg yn mynd i annog pobl iau i gymryd rhan os oeddent yn teimlo nad oedd eu llais yn cael ei glywed.  Roedd y ffaith bod cyfarfod arbennig y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol wedi'i amseru am 10.00am ar ddiwrnod yn ystod wythnos wedi golygu, hyd yn oed gyda'r ddemograffeg gyfredol, bod cryn dipyn o bobl a oedd wedi gorfod anfon eu hymddiheuriadau oherwydd na allent fod yn bresennol,
  - y mwyafrif o Gynghorau Cymuned oedd y pwynt cyswllt cyntaf i drigolion lleol ac roeddent yn darparu gwasanaethau hanfodol ac roedd gwahaniaeth rhwng etholwyr cefn gwlad a threfol Bro Morgannwg,
  - roedd yr argymhellion arfaethedig yn gwanhau democratiaeth leol yn ardaloedd gwledig Bro Morgannwg ar draul cymunedau lleol ac roedd y Cyngor Cymuned wedi gwrthwynebu heb unrhyw amarch at y ddau Gyngor arall y cynigiwyd i Gyngor Cymuned Tregolwyn ymuno â nhw.  Roedd y Cyngor Cymuned yn wahanol i gynghorau eraill ac felly'n dymuno aros fel yr oedd.

- **Y Cynghorydd Perry [Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn]** - Roedd yn anffodus bod y cyfarfod arbennig wedi ei alw am 10.00am a oedd yn gynnar iawn yn y dydd i gefnogi presenoldeb.  Byddai Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn elwa o argymhellion y Comisiwn oherwydd ei fod yn golygu y byddai pentrefannau yr oedd bob amser wedi bod yn gysylltiedig â nhw yn dod dan y Cyngor Cymuned gan ei gwneud yn gymuned fwy cydlynol a sicrhau arbedion maint o ran cynrychiolaeth ac aelodaeth.  Roedd y Cyngor Cymuned wedi bod â swydd wag ers 2014 felly adleisiodd y Cynghorydd Perry sylwadau’r Cynghorydd Shaws ynghylch anawsterau a wynebir wrth gynnwys pobl newydd mewn democratiaeth leol.  Nid oedd pleidiau gwleidyddol yn cyflwyno ymgeiswyr

ar bapur ond nad oedd ganddynt ddiddordeb yn y gymuned leol na gwasanaethu o gymorth i ddemocratiaeth. Cydnabuwyd bod y Cyngor Cymuned wedi adeiladu demograffeg iau o fewn ei aelodaeth, ond roedd hyn wedi arwain at gyfnodau byrrach o aelodaeth oherwydd bod unigolion yn rhy brysur neu'n cymryd rhan yn ystod absenoldeb mamolaeth. Ni fyddai lleihau nifer y Cynghorwyr yn cynyddu democratiaeth a byddai mewn gwirionedd yn lleihau amrywiaeth aelodau.

- **Y Cynghorydd Halliwell [Cyngor Cymuned Sain Dunwyd]** - Adleisiodd y Cynghorydd Halliwell y sylwadau a wnaed gan y Cynghorwyr Perry a Hadley mewn perthynas ag effeithiau'r argymhellion arfaethedig ar ddemocratiaeth leol a hanfod bywyd gwledig; ni chafodd democratiaeth ei chynorthwyo drwy leihau nifer y cynghorwyr a byddai unigolion yn sefyll pe baent am helpu eu cymuned. Felly, nid oedd lleihau nifer y cynghorwyr yn mynd i helpu.

Ar gais y Cadeirydd, ychwanegodd y Prif Weithredwr y pwyntiau cyngor canlynol mewn ymateb i'r sylwadau a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:

- Roedd Cyngor Bro Morgannwg eisoes wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn dilyn ystyried a thrafod am gyfnod hir adroddiad ac argymhellion y Comisiwn yng nghyfarfod y Cyngor Llawn. Penderfynwyd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn y dylid rhoi sylwadau'r Cyngor Llawn i Weinidog Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ddyletswydd a roddwyd ar Gyngor Bro Morgannwg i ymateb o fewn amserlen yr ymgynghoriad.
- Braf oedd gweld o'r sylwadau a godwyd yn ystod y cyfarfod arbennig fod Cynghorau Cymuned hefyd wedi ymateb i'r ymgynghoriad a bod sylwadau wedi'u pasio ymlaen yn ôl yr angen. Byddai unrhyw sylwadau pellach yr hoffai Cynghorau Cymuned eu gwneud yn debygol o gael eu croesawu gan Lywodraeth Cymru ni waeth unrhyw ymatebion eraill/blaenorol a dderbyniwyd.
- Roedd amser yn hanfodol mewn perthynas â'r dyddiad cau i ymateb sef 28 Mai 2024 ac felly trefnodd y Cyngor gyfarfod arbennig y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol ar yr amser fwyaf ymarferol i'w wneud yn gyfarfod ystyrlon, gydag amser ar ôl wedyn i alluogi Cynghorau Tref a Chymuned i roi unrhyw sylwadau ychwanegol i weinidog Llywodraeth Cymru.
- Yr hyn a welwyd o'r argymhellion arfaethedig, yn ardaloedd gwledig Bro Morgannwg yn benodol, oedd uno rhai Cynghorau Cymuned fodd bynnag byddai wardiau yn parhau i fodoli. Er enghraifft, mewn perthynas â'r argymhellion yn ymwneud â Chynghorau Cymuned Tregolwyn a Llan-gan, byddai'r wardiau yn dal i fodoli o fewn y cymunedau unigol a byddent yn dal i gael eu cynrychioli er yn rhan o gyfansoddiad y Cyngor Cymuned newydd. Felly, byddai cynrychiolaeth yn dal i fodoli ar lefel ward ond, o ganlyniad i'r adolygiad, byddai llai o gynghorwyr cymunedol yn cynrychioli ardal fwy. Y rhesymau am hyn yw:
  1. Roedd y Comisiwn wedi edrych ar y ffordd yr oedd etholiadau blaenorol wedi cael eu cynnal ar draws Bro Morgannwg a faint o gynghorwyr a gafodd eu hethol yn hytrach na'u cyfethol i'w swydd, a
  2. Defnyddiodd y Comisiwn y Polisi Maint Cynghorau fel canllaw i gyflawni lefel o gynrychiolaeth a oedd yn berthnasol i ardaloedd penodol.

- Byddai barn wahanol ynghylch a fyddai newid nifer y cynghorwyr ar gyfer ardal yn gwella atebolrwydd democrataidd fodd bynnag, roedd yn amlwg o etholiadau blaenorol ym Mro Morgannwg fod unigolion yn sefyll yn ddiwrthwynebiad. Trafodwyd y pwynt sawl gwaith dros y ddwy flynedd flaenorol, boed hynny yn y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol, y Cyngor Llawn neu'r Gweithgor Trawsbleidiol a sefydlwyd i helpu i arwain Cyngor Bro Morgannwg i gyfrannu at yr adolygiad. Dadleuwyd y byddai nifer llai o gynghorwyr cymunedol, ar gyfer ardal fwy o faint o ganlyniad i'r adolygiad, yn cynyddu'r siawns o gystadlu am seddi'r Cyngor Cymuned perthnasol.
- Rhoddwyd trosolwg o’r Polisi Maint Cynghorau yn y Cyfarfod Cyswllt Cymunedol ym mis Hydref 2022 ac roedd y polisi ynghlwm wrth gylch gorchwyl y Gweithgor Trawsbleidiol a gyflwynwyd o fewn adroddiad i'r Cabinet ac a rannwyd â phob Cyngor Tref a Chymuned yn ardal Bro Morgannwg. Rhannwyd y Polisi Maint Cynghorau’n gynnar yn y broses adolygu gyda chyfle i roi adborth ar y polisi ac roedd angen i'r Comisiwn dderbyn a oedd y Polisi Maint Cynghorau’n addas at y diben bryd hynny.

Heb unrhyw sylwadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD – Y DYLID nodi'r sylwadau a godwyd gan Aelodau Etholedig a Chynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned y Pwyllgor mewn perthynas ag Adolygiad Cymunedol Bro Morgannwg.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

O ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod ar gyhoeddiad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol o’u Hadroddiad Argymhellion Terfynol mewn perthynas â’r adolygiad o drefniadau cymunedol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, fel y’i derbyniwyd pan adroddwyd i Cyngor Llawn ar 29 Ebrill, 2024 (gyda chyflwyniad ffurfiol yr adroddiad i Weinidogion Cymru ar 7 Mai, 2024).